# Blaenoriaethau 2026-27

Ysgol Morgan Llwyd

## Sut benderfynwyd ar y blaenoriaethau?

- Mae'r ysgol yn dilyn cylch arfarnu sy'n cynnwys tair wythnos monitro benodedig. Mae pawb yn chwarae rhan yn yr wythnosau monitro.
- Yn ystod yr wythnosau monitro, byddwn yn craffu ar bopeth, o wersi i lyfrau, holiaduron, data, trafodaethau. Mae'r cyfan yn cael ei goladu a'i ddadansoddi cyn penderfynu ar gamau gweithredu.
- Mae'r blaenoriaethau'n bwydo ein Cynllun Datblygu ysgol a Chynlluniau Datblygu Adrannau.
- Byddwn yn adolygu'r cynlluniau hyn yn gyson ac yn newid / ychwanegu at y blaenoriaethau yn ôl yr angen.

## Gwerthuso Cynllun Datblygu 2025-26

- Mae cyrsiau TGAU newydd wedi eu cyflwyno'n llwyddiannus yn yr ysgol. Bydd angen parhau a hyn wrth gyflwyno gweddill y TGAU newydd a pharatoi at gyrsiau Ton 3 ym Medi 2027.
- Rhoddwyd sylw i wahanol agweddau o ddysgu ac addysgu yn 2025-6. Bydd angen parhau i rannu arferion da mewn rhai meysydd, er enghraifft gwahaniaethu. Mae angen dod nol at Lythrennedd fel blaenoriaeth ysgol gyfan hefyd.
- Mae penodi swyddog presenoldeb wedi rhoi gwell trefn ar ein systemau hyrwyddo presenoldeb. Mae angen rhoi sylw i'r gefnogaeth i ddisgyblion ADY.
- Yn dilyn Eisteddfod Wrecsam, roedd hyrwyddo Cymreictod yn flaenoriaeth. Mae llawer o waith wedi ei wneud, er enghraifft rhoi sylw i'n systemau gwobrwyo, a bydd angen parhau a hyn er na fydd yn flaenoriaeth ar y Cynllun Datblygu.

### DYSGU AC ADDYSGU / ARWAIN A GWELLA

- ❑ **Parhau i ledaenu arferion da mewn dysgu ac addysgu**.

*- Bydd hyn yn cynnwys arferion da o ran trefn gwersi, gwerthuso, cwestiynu, gwahaniaethu a rhannu adnoddau.*

### DYSGU AC ADDYSGU / ARWAIN A GWELLA

- ❑ **Parhau i ddatblygu safonau yn y medrau.**

*- Bydd y prif ffocws ar lythrennedd, sy'n cynnwys ysgrifennu, darllen a siarad Cymraeg. Bydd hefyd yn cynnwys sylw i rifedd.*

### DYSGU AC ADDYSGU / ARWAIN A GWELLA

- ❑ **Paratoi ar gyfer cyrsiau Ton 3 (Medi 2027)**

*- Bydd angen cadarnhau ein harlwy o gyrsiau TAAU a phenderfynu sut mae bodloni gofynion Fframwaith Hawl i Ddysgu.*

### LLES, GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD / ARWAIN A GWELLA

- ❑ **Parhau i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel.**

*- Cryfhau rheolaeth dosbarth, disgwyliadau, ymddygiad ar y coridor a rôl pob aelod o staff.*

### LLES, GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD / ARWAIN A GWELLA

- ❑ **Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer ADY / Niwroamrywiaeth ar draws yr ysgol.**

*- Datblygu meddylfryd a pholisiau'r ysgol. Sicrhau'r gefnogaeth orau i ddisgyblion a staff.*

## Sut fyddwn yn gweithredu?

- Mae Cynllun Datblygu'r Ysgol a chynlluniau gwella adrannau yn cynnwys camau gweithredu clir ar gyfer pob blaenoriaeth. Mae cyllid, cerrig milltir adolygu, cyfrifoldebau ac anghenion hyfforddi wedi eu nodi yn y cynlluniau.
- Bydd yr Uwch Dim Arwain yn adolygu'r CD Ysgol bob pythefnos o fis Hydref ymlaen ac adrannau'n adolygu eu cynlluniau mewn cyfarfodydd adrannol.
- Bydd pob cynllun yn cael ei werthuso a'i ddiweddaru ar ôl y tair wythnos monitro.

## Datblygiad Proffesiynol

- Mae pob aelod o staff yn dilyn gweithdrefn Adolygu Datblygiad Proffesiynol sy'n nodi pa hyfforddiant fydd angen arnynt i wireddu'r blaenoriaethau.
- Defnyddir diwrnodau HMS i roi hyfforddiant i staff ar agweddau o'r Cynllun Datblygu yn ogystal a gweithdai amrywiol.

## Cymorth

- Byddwn yn derbyn cymorth gan yr Awdurdod Lleol wrth weithio ar y blaenoriaethau, ac yn manteisio ar unrhyw gyfleon i gydweithio ag ysgolion eraill.

## Atebolrwydd

- Mae'r Corff Llywodraethol wedi cymeradwyo'r Cynllun ac yn ein dal yn atebol am ei weithredu. Gwneir hyn yn bennaf yng nghyfarfodydd yr Is Bwyllgor Safonau a gynhelir bob hanner tymor.
- Bydd Estyn yn arolygu'r ysgol yn rheolaidd. Mae copi o adroddiad Estyn Hydref 2022 ar gael ar wefan yr ysgol.